# Perfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2022-23

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol 2018-23, a adolygwyd ar gyfer 2022-2023. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y Cynllun yn chwarter 4 2022-23, sef y sefyllfa alldro derfynol ar ddiwedd y flwyddyn. Dyma flwyddyn olaf y Cynllun pum mlynedd hwn a'i dri amcan llesiant. Roedd yn diffinio 31 o ymrwymiadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn a 36 o ddangosyddion perfformiad i fesur cynnydd. Mae'r amcanion llesiant fel a ganlyn:

**ALl1 – Cefnogi economi lwyddiannus, gynaliadwy** – cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle gwych i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddo ac i ymweld ag ef, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y fwrdeistref sirol.

**ALl2 – Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach a gwytnach –** cymryd camau i atal pobl rhag dod yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau, neu leihau'r tebygolrwydd o hynny'n digwydd. Cefnogi unigolion a chymunedau i feithrin gwytnwch, a'u galluogi i ddatblygu atebion ar gyfer sicrhau bywydau egnïol, iach ac annibynnol.

**ALl3 – Defnyddio adnoddau'n ddoethach**– sicrhau bod ein holl adnoddau (y rhai ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl a rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i wireddu amcanion llesiant y Cyngor.


## Crynodeb o gynnydd o ran Ymrwymiadau Corfforaethol

Mae pob un o'r ymrwymiadau wedi derbyn statws Glas, Coch, Oren neu Wyrdd (BRAG) priodol ar ddiwedd chwarter 4. Mae Tabl 1 isod yn dangos crynodeb o statws cyffredinol y 31 ymrwymiad, gyda Siart 1 yn dangos hyn ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant.

**Tabl 1**

| Statws | Ystyr y Statws | Perfformiad Ch4 | |
|---|---|---|---|
| | | Nifer | % |
| GLAS | Wedi'i gwblhau | 3 | 9.7% |
| GWYRDD | Yn symud ymlaen fel y cynlluniwyd ac yn unol â'r amserlen benodedig, y gyllideb, a'r canlyniadau a ddymunir | 12 | 38.7% |
| OREN | Materion a allai ohirio cynnydd | 16 | 51.6% |
| COCH | Materion o bwys sylweddol | 0 | - |
| | Cyfanswm | 31 | 100% |

**Siart 1**




## Crynodeb o Fesurau Perfformiad


Caiff perfformiad ei feirniadu yn erbyn y targedau dangosyddion perfformiad diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Gosodwyd targedau ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion, ond yn achos rhai dangosyddion newydd neu lle'r oedd ansicrwydd ynghylch effaith barhaus COVID-19 ar ganlyniadau, ni osodwyd targed rhifiadol. Yn yr achosion hyn, gosodwyd targedau megis ‘sefydlu llinell sylfaen newydd’ neu ‘feincnodi’.

O'r 36 dangosydd, gellid cymharu 33 yn erbyn targed a dyfarnu statws Coch, Oren, Melyn neu Wyrdd (RAYG).  Mae Tabl 2 isod yn dangos crynodeb o berfformiad fesul statws, gyda Siart 2 yn darparu'r crynodeb hwn wedi’i ddadansoddi fesul amcan llesiant.





**Tabl 2**

| | | Perfformiad Ch4 | |
|---|---|---|---|
| **Statws** | **Diffiniad** | **Nifer** | **%** |
| **GWYRDD** | Yn unol â'r targed neu'n well, AC mae perfformiad wedi gwella o gymharu â'r llynedd (neu mae perfformiad o'r safon uchaf ac ni ellir ei wella) | 10 | 30.3% |
| **MELYN** | Yn unol â'r targed | 6 | 18.2% |
| **OREN** | Mae’r targed o fewn 10% | 8 | 24.2% |
| **COCH** | Methu'r targed o 10% neu fwy | 9 | 27.3% |
| | Cyfanswm | 33 | 100% |

**Siart 2**




Isod mae ein perfformiad ar gyfer pob un o’r dangosyddion perfformiad hyn, neu’r mesurau llwyddiant a osodwyd gennym ni ar gyfer pob amcan llesiant. Mae hyn hefyd yn dangos tuedd perfformiad, felly gallwch weld sut mae'r sefyllfa alldro hon yn cymharu â'r un cyfnod y llynedd, lle bo'n briodol i wneud hynny.

| **Diffiniad o Dueddiadau Dangosyddion Perfformiad** | |
|---|---|
|  | Mae perfformiad wedi gwella o’i gymharu â'r llynedd |
|  | Mae perfformiad wedi'i gynnal (gan gynnwys y rhai sydd wedi cyrraedd yr uchafswm) |
|  | Mae perfformiad wedi dirywio OND wedi aros o fewn 10% i ffigwr y llynedd |
|  | Mae perfformiad wedi gostwng 10% neu fwy o’i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |

## ALl1: Cefnogi economi lwyddiannus, gynaliadwy

### Maes Blaenoriaeth: Gwella canlyniadau dysgwyr

| **Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)*** | **Gwirioneddol 2021-22** | **Targed 2022-23** | **Gwirioneddol 2022-23 a RAYG** | **Tuedd** |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr holl ysgolion sydd â phrosesau gwerthuso a gwella effeithiol ar waith ***(Uwch)*** | 100% | 100% | **Oren 90%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn adlewyrchu arolygiadau diweddar lle mae'r angen i sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn effeithio ar addysgu a dysgu wedi'i nodi. Mae'r camau canlynol yn cael eu cymryd: - adnoddau i gefnogi cynllunio strategol wedi'u datblygu a'u rhannu gydag arweinwyr ysgol; - sesiwn dysgu proffesiynol ar hunanwerthuso ar gyfer arweinwyr i'w chyflwyno mewn cyfarfod Tîm Pen-y-bont ar Ogwr; - mae prosesau monitro ysgolion ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol yn dychwelyd i'r arfer yn dilyn effaith sylweddol COVID-19, pan oedd capasiti staffio ac amodau gweithredu yn lleihau'r gallu i gynnal gwaith monitro; ac - mae partneriaid gwella Consortiwm Canolbarth y De yn gwneud mwy o waith monitro, mewn partneriaeth ag ysgolion, i adolygu prosesau a systemau, a sicrhau ansawdd dyfarniadau. | | | | |

### Maes Blaenoriaeth: Twf a ffyniant

| **Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)*** | **Gwirioneddol 2021-22** | **Targed 2022-23** | **Gwirioneddol 2022-23 a RAYG** | **Tuedd** |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sydd ar waith / yn cael eu datblygu. ***(Uwch)*** | £14.2 miliwn | £20 miliwn | **Gwyrdd £34 miliwn** | Amherthnasol |
| Nifer y cyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael cyflogaeth. ***(Uwch)*** | 556 | 347 | **Melyn 392** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae nifer y swyddi yn rhagori ar y targed, sy'n dangos y gwaith da sy'n cael ei wneud gan y tîm. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau economaidd newidiol yn golygu bod diweithdra ar ei lefel isaf erioed, a llai o bobl yn y farchnad lafur yn golygu newid ffocws hefyd. Mae'n bosibl y bydd y bobl sy'n cael cymorth ar hyn o bryd yn wynebu sawl rhwystr cymhleth i'r farchnad lafur, yn derbyn cymorth mwy dwys, neu eisoes mewn swydd sgiliau isel ar gyflog isel lle mae angen cymorth arnynt gyda thlodi mewn gwaith a/neu gynnydd. Rydym wedi llwyddo i sicrhau gwaith i bobl, sy'n golygu bod sefyllfa y rhai sydd ar ôl yn fwy heriol. | | | | |
| Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi – nifer ar gyfer ***(Uwch)*** a) Pen-y-bont ar Ogwr | 4.538 miliwn | 4.538 miliwn | **Gwyrdd 4.712 miliwn** | ↑ |
| b) Porthcawl | 2.717 miliwn | 2.717 miliwn | **Gwyrdd 2.805 miliwn** | ↑ |
| c) Maesteg | 0.906 miliwn | 0.906 miliwn | **Gwyrdd 0.959 miliwn** | ↑ |
| Nifer y lleoliadau gwag mewn canol trefi ***(Is)*** a) Pen-y-bont ar Ogwr | 78 | Meincnodi | 78 | ↔ |
| b) Maesteg | 19 | Meincnodi | 18 | ↑ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| c) Porthcawl | 17 | Meincnodi | 15 | ↑ |
| d) Pencoed | 8 | Meincnodi | 7 | ↑ |
| Cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid ***(Uwch)*** | £225 miliwn | £151 miliwn | **Gwyrdd £369.7 miliwn** | ↑ |
| Nifer y busnesau newydd **(*Uwch)*** | 535 | 530 | **Gwyrdd 770** | ↑ |

## ALl2: Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach a gwytnach

**Maes Blaenoriaeth: Datblygu a gwella cefnogaeth a gwasanaethau cymunedol**

| **Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)*** | **Gwirioneddol 2021-22** | **Targed 2022-23** | **Gwirioneddol 2022-23 a RAG** | **Tuedd** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl 65 oed a hŷn a gyfeiriwyd at y Tîm Adnoddau Cymunedol. ***(Uwch)*** | 1,981 | >2,200 | **Oren 2,010** | ↑ |
| **Perfformiad:** Ein prif atgyfeiriwr yw'r bwrdd iechyd, ble rydym yn derbyn atgyfeiriadau o feysydd gofal sylfaenol ac eilaidd – mae'r ffigur hwn yn dibynnu ar gyfraddau atgyfeirio gan ein prif atgyfeiriwr. | | | | |
| Canran y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd sydd wedi: a) Lleihau'r angen am gymorth ***(Uwch)***: | 16.81% | >33% | **Coch 11.67%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae perfformiad da mewn adrannau eraill o'r dangosydd perfformiad hwn a fydd yn effeithio ar berfformiad yn yr adran hon. | | | | |
| b) Cynnal yr un lefel o gymorth ***(Is)*** | 4.68% | <11% | **Coch 14.59%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae rhannau a, b, c a d i gyd yn gysylltiedig ac yn gwneud cyfanswm o 100%. Mae perfformiad da yn rhan c yn golygu y gallem fod yn methu'r targed ar gyfer rhannau a, b a d. | | | | |
| c) Lliniaru'r angen am gymorth ***(Uwch)***: | 70.94% | >48% | **Melyn 66.84%** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae perfformiad da mewn rhannau eraill o'r dangosydd perfformiad hwn a fydd yn effeithio ar berfformiad yn yr rhan hwn. | | | | |
| d) Cynyddu'r angen am gymorth ***(Is)*** | 7.88% | <8% | **Gwyrdd 6.9%** | ↑ |

**Maes Blaenoriaeth: Adeiladu cymunedau gwydn**

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r Cyngor a drosglwyddwyd i'r gymuned i'w rhedeg. ***(Uwch)*** | 11 | 20 | **Coch 10** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae'r ansicrwydd economaidd sy'n ymwneud â phwysau chwyddiant, yn enwedig costau cyfleustodau, wedi golygu y gallai grwpiau cymunedol fod yn mabwysiadu dull "aros i weld", tra bod rhai clybiau chwaraeon wedi gohirio trosglwyddiadau tan ddiwedd y tymor (Ebrill/Mai 2023). Mae adnoddau staff cyfyngedig, yn enwedig o fewn y tîm Landlordiaid Corfforaethol, hefyd wedi golygu na fydd trosglwyddiadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae hefyd yn cyfyngu ar y camau y gellir eu cymryd i annog cwblhad cytundebau hunanreoli (lesoedd/trwyddedau). | | | | |
| Canran yr aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref a rwystrwyd rhag dod yn ddigartref yn llwyddiannus. ***(Uwch)*** | 30.5% | 30% | **Coch 19%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae'r galw am dai cymdeithasol yn llawer uwch na'r cyflenwad, sy'n golygu bod rhaid i aelwydydd aros yn hirach am lety. Yn sicr, nid oes llety ar gael yn ystod y cyfnod pan fydd aelwyd yn derbyn cymorth o dan dyletswydd atal. Cafwyd mewnlifiad o ymgeiswyr o ganlyniad i gyflwyno hysbysiadau yn y sector rhentu preifat. Yn anecdotaidd, gwelwn hyn yn digwydd o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth rhentu cartrefi newydd. Mae'r sector rhentu preifat yn parhau i grebachu o ganlyniad i landlordiaid yn gwerthu, ac mae'r cartrefi sy'n parhau i fod ar y farchnad yn cynyddu eu prisiau rhent yn sylweddol neu'n symud i'r sector twristiaeth ac yn cynnig eu heiddo trwy Airbnb er mwyn cael elw llawer uwch. Rydym yn parhau i weithio gyda charfannau neu unigolion lle nad yw atal digartrefedd yn bosibl, e.e carcharorion. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu gwneud yn ddigartref sydd angen llety cwbl addasadwy. Nid yw'r stoc yn bodloni'r galw am hyn ac felly mae atal yn amhosibl. | | | | |
| Canran y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol dros ddarparu llety priodol iddynt. ***(Is)*** | 19.2% | 30% | **Gwyrdd 7.6%** | ↑ |
| Nifer y cartrefi ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ailfeddiannu eiddo gwag. **(Uwch)** | 3 | 7 | **Coch 1** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae'r amgylchedd yn heriol iawn wrth i'r sector rhentu preifat barhau i grebachu o ganlyniad i landlordiaid yn gwerthu, a'r cartrefi sy'n parhau i fod ar y farchnad yn cynyddu eu prisiau rhent yn sylweddol neu'n symud i'r sector twristiaeth am elw llawer uwch. Felly, mae'r awydd i greu anheddau ychwanegol drwy isrannu annedd bresennol i'w defnyddio eto yn isel o ganlyniad i'r lwfans tai lleol presennol o'i gymharu â rhenti'r farchnad. | | | | |
| Canran yr anheddau preswyl sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. **(Uwch)** | 4.89% | 6% | **Oren 5.77%** | ↑ |
| **Perfformiad:** Er na chyflawnwyd y targed, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i weithredu uniongyrchol. Yn ystod 2022-2023, gwelwyd y trosolwg canlynol o'r 20 eiddo gwag hirdymor pwysicaf: daeth pum eiddo o'r 20 pwysicaf i feddiannaeth, gwerthwyd tri eiddo (gwn fod un o'r rhain yn cael ei adnewyddu), rhoddwyd dau eiddo ar y | | | | |

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| farchnad i'w gwerthu, mae dau eiddo yn disgwyl profiant, ac mae chwe eiddo yn destun hysbysiadau gorfodi. | | | | |
| Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal. ***(Is)*** | 374 | <371 | **Oren 401** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar leihau'n ddiogel nifer y boblogaeth sydd â phrofiad o fod mewn ofal trwy'r cyfarfodydd diddymu gorchmynion gofal a grwpiau monitro sefydlogrwydd. Darperir capasiti ychwanegol o fewn y Tîm Sefydlogrwydd i gefnogi'r gwaith o ddelio â cheisiadau i ddiddymu gorchmynion gofal. Bydd gwaith uniongyrchol yn cael ei wneud gyda gofalwyr a nodwyd ble gallai gorchmynion amgen posibl gael eu defnyddio os oes gwrthwynebiad a phryder. Mae arferion gwell a mwy effeithlon yn cael eu dilyn, gyda gweithwyr cymdeithasol yn cyflwyno ansawdd yr asesiad wrth ddiddymu gorchmynion gofal. Mae'r adran gyfreithiol yn darparu templedi arferion da i weithwyr cymdeithasol i sicrhau cysondeb a bod safonau'n cael eu bodloni. | | | | |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf tri mis o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ddi-dor yn y 12 mis ers gadael gofal. ***(Uwch)*** | 64.52% | >65% | **Coch 54.17%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Daethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun Incwm Sylfaenol peilot wedi cael effaith ar nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant. Mae'r nifer yn sylweddol is o gymharu â'r rhai sydd yn y garfan 24 mis ers gadael gofal, sy'n adlewyrchu hyn. | | | | |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf tri mis o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ddi-dor yn yr 13-24 mis ers gadael gofal. ***(Uwch)*** | 54.55% | >55% | **Gwyrdd 62.07%** | ↑ |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn o fewn 12 mis i adael gofal (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014). ***(Is)*** | 20.69% | <17% | **Gwyrdd 14.81%** | ↑ |

**Maes Blaenoriaeth: Gwell iechyd a llesiant**

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran y cynlluniau cymorth a gwblhawyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu sy'n dod i ben â chanlyniadau llwyddiannus. **(Uwch)** | 73% | 70% | **Gwyrdd 75%** | ↑ |
| Canran yr unigolion mewn gofal a reolir a gaiff eu cefnogi yn y gymuned. ***(Uwch)*** | 73.4% | >75% | **Oren 74.52%** | ↑ |
| **Perfformiad:** Mae'r farchnad ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Mae'r cyfyngiadau ar y cynnig cymunedol wedi effeithio arni, sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar bobl a'u gofalwyr sy'n byw gartref. Bydd rhaid ystyried effaith y pandemig ar ein hamcanestyniadau comisiynu yn y dyfodol wrth ragamcanu'r holl anghenion y dyfodol. | | | | |

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr unigolion mewn gofal a reolir a gaiff eu cefnogi mewn lleoliad cartref gofal. ***(Is)*** | 26.6% | <25% | **Oren 25.48%** | ⬆ |
| **Perfformiad:** Mae’n anochel bod y cyfnod clo a chyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar lif pobl i mewn i gartrefi gofal a reoleiddir. Mae mwy o bobl wedi aros gartref am gyfnod hirach, ac eraill, a fyddai wedi aros gartref am gyfnod hirach pe bai gofal yn y cartref wedi bod ar gael, wedi cael eu rhoi mewn gofal. Bydd angen monitro effaith hyn ar gapasiti gwelyau ein cartrefi gofal yn ofalus wrth symud ymlaen. | | | | |
| Cyfanswm y materion yn ymwneud â'r llyfrgell, gan gynnwys materion ffisegol, materion digidol, a materion yn ymwneud â'r gwasanaeth llyfrau ar glud i gartrefi pobl | Newydd ar gyfer 2022-23 | Sefydlu llinell sylfaen | 451,958 | Amherthnasol |
| **Perfformiad:** Roedd 114,099 o faterion, gan gynnwys 87,715 o faterion ffisegol, 13,614 o faterion digidol a 12,770 o faterion a oedd yn gysylltiedig a'r gwasanaeth llyfrau ar glud. Rydym yn aros am adolygiad ac adroddiad Llywodraeth Cymru ar wasanaethau llyfrgell a safonau cenedlaethol yng Nghymru ac adroddiad i’r Cabinet. | | | | |
| Cyfanswm yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a weithredir gan Halo Leisure ar gyfer pob diben. | Newydd ar gyfer 2022-23 | Sefydlu llinell sylfaen | 1.196 miliwn | Amherthnasol |
| **Perfformiad:** Cafwyd 328,766 o ymweliadau cyffredinol â lleoliadau a weithredir gan Halo Leisure, gan gynnwys 271,983 o ymweliadau at ddibenion gweithgarwch corfforol. Parhau i weithio mewn partneriaeth â Halo Leisure i gynyddu a chynnal cyfleoedd ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol. | | | | |

## ALI3: Defnyddio adnoddau’n ddoethach

**Maes Blaenoriaeth: Trawsnewid ystad y Cyngor**

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Gwireddu targedau derbyniadau cyfalaf. ***(Uwch)*** | £48,840 | £3.775 miliwn | **Oren £3.71 miliwn** | Amherthnasol |
| **Perfformiad:** Roedd yr alldro terfynol yn £65,000 yn is na'r targed, yn bennaf o ganlyniad i bwysau adnoddau mewnol a'r amser oedd ei angen i sicrhau bod y ddau warediad mwyaf yn cael eu cwblhau. Roedd/bydd swm y diffyg yn cynnwys trafodion llai nad oedd gennym yr adnoddau i'w talu. | | | | |
| Canran y gydymffurfedd statudol llawn ar draws adeiladau gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. ***(Uwch)*** | 64.4% | 100% | **Coch 78.6%** | ⬆ |
| **Perfformiad:** Mae cydymffurfedd cyffredinol (cyfanswm cyfunol statudol ac anstatudol) 14.2% yn uwch nag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Roedd y pum prif eitem o ran cydymffurfedd statudol ar 89.7% ar ddiwedd y flwyddyn. Cyhoeddwyd nifer sylweddol o gontractau profi cydymffurfedd newydd yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa yn ystod y cyfnod nesaf. Gohiriwyd y gwaith o gaffael System Rheoli Gwaith Integredig newydd oherwydd | | | | |

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| pwysau adnoddau mewnol, ond bydd yn gwella rheoli cydymffurfedd ymhellach pan gaiff ei defnyddio. | | | | |

**Maes Blaenoriaeth: Meysydd o newid corfforaethol**

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran y gostyngiadau a gyflawnwyd i'r gyllideb (cyllideb gyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr). ***(Uwch)*** | 96.3% | 100% | **Coch 72.1%** | Amherthnasol |
| **Perfformiad:** Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yw diffyg o £176,000 ar darged arbedion 2022-23, neu 27.9% o'r targed gostyngiad cyffredinol. Y cynigion mwyaf arwyddocaol i leihau'r gyllideb na chyflawnwyd yn llawn oedd: - • SSWB 2 – ailfodelu darpariaeth gwasanaethau dydd ar gyfer pobl hŷn a gwasanaethau anabledd dysgu (diffyg o £81,000). Nodwyd arbedion effeithlonrwydd yn 2022-23 a gweithredwyd arnynt, ac mae'r gwaith wedi parhau i ddatblygu'r ailfodelu ymhellach er mwyn cyrraedd y targed arbedion yn llawn yn 2023-24 • COM 3 – newid cyfansoddiad bagiau gwastraff bwyd cartrefi (diffyg o £35,000). Mae'r cynnig i leihau'r gyllideb wedi'i ohirio oherwydd ymchwil a thrafodaeth genedlaethol barhaus ynghylch cyfansoddiad bagiau gwastraff bwyd cartref, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau posibl yn y ddeddfwriaeth yn effeithio ar y cynnig. Bydd yr arbediad yn cael ei gyflawni drwy wneud arbedion effeithlonrwydd untro amgen yn 2023-24 er mwyn cyflawni sefyllfa cyllideb gytbwys • COM5 – gosod adain o Gwrt y Cigfrain yn fasnachol i sefydliad neu fusnes partner (diffyg o £50,000) – oedi wrth symud y cynnig i leihau'r gyllideb yn ei flaen oherwydd swyddi gwag. Bydd penodi Uwch-syrfëwr Portffolio yn gwneud hyn yn flaenoriaeth yn 2023-24, ond efallai na fydd yr arbediad yn cael ei wneud yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Os mai dyma'r achos, bydd yr arbediad yn cael ei gyflawni drwy wneud arbedion effeithlonrwydd unigol eraill er mwyn sicrhau sefyllfa gytbwys yn y gyllideb. | | | | |
| Cyfanswm y prentisiaid a gyflogir ar draws y sefydliad ***(Uwch)*** | 40 | 36 | **Melyn 36** | ↓ |
| **Perfformiad:** Er ein bod wedi cyrraedd y targed, rydym yn parhau i gysylltu â rheolwyr i hyrwyddo prentisiaid o fewn eu gwasanaethau. | | | | |

**Maes Blaenoriaeth: Datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol**

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir *(uwch neu is)* | Gwirioneddol 2021-22 | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 a RAG | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir y pen. ***(Is)*** | 131.65 kg | 131.65 kg | **Gwyrdd 120.2 kg** | ↑ |
| Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio ***(Uwch)*** | 72.97% | 70% | **Melyn 71.38%** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae'r alldro yn uwch na'r targed ond yn dangos gostyngiad mewn perfformiad o'i gymharu â'r llynedd. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad sylweddol mewn gwastraff bwyd a deunydd ailgylchu sych o gymharu â'r llynedd, oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol o bosibl, gyda thrigolion yn prynu ac yn gwastraffu llai o fwyd. | | | | |

| Y mesur a'r canlyniad a ffefrir ***(uwch neu is)*** | **Gwirioneddol 2021-22** | **Targed 2022-23** | **Gwirioneddol 2022-23 a RAG** | **Tuedd** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y gwastraff ***(Uwch)*** a) wedi'i ailddefnyddio | 1.24% | 1% | **Coch 0.68%** | ↓ |
| **Perfformiad:** Mae'r canlyniad yn is na'r targed. Mae oedi yn agoriad y Pîl wedi cael effaith sylweddol ar hyn. Cais yn yr arfaeth o hyd. | | | | |
| b) wedi'i ailgylchu | 51.29% | 47% | **Melyn 51.01%** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae gostyngiad bach wedi bod mewn mewn alldro o'i gymharu â'r llynedd oherwydd gostyngiad sylweddol mewn deunydd ailgylchu sych, oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol o bosibl, gyda thrigolion yn prynu llai. | | | | |
| c) wedi'i gompostio | 20.44% | 20% | **Oren 19.69%** | ↙ |
| **Perfformiad:** Mae gostyngiad bach wedi bod mewn alldro o'i gymharu â'r llynedd oherwydd gostyngiad sylweddol mewn deunydd ailgylchu sych, oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol o bosibl, gyda thrigolion yn prynu llai ac yn gwastraffu llai o fwyd. | | | | |
| Canran y gwastraff glanhau strydoedd sy'n cael ei baratoi i'w ailgylchu. ***(Uwch)*** | 40.7% | 40% | **Melyn 40.47%** | ↙ |
| **Perfformiad:** Yn uwch na'r targed ond gostyngiad bychan mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Proseswyd llai o dunelli na'r flwyddyn flaenorol. Byddai'r systemau adrodd cywirach sydd bellach ar waith gan ein prosesydd hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd bychan hwn. | | | | |